# Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27

Mae'r cynllun corfforaethol yn gweithredu fel cynllun busnes y cyngor ac yn gosod y weledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau ar gyfer 2022/27. Mae'n amlinellu nid yn unig yr hyn y gall pobl Blaenau Gwent ei ddisgwyl gan y cyngor ond, hefyd, yr hyn y mae'r cyngor yn gofyn amdano gan ei ddinasyddion a'i bartneriaid.

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn nodi rhaglen uchelgeisiol o weithgarwch ar gyfer y cyngor dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. Cafodd y blaenoriaethau, a gaiff hefyd eu galw yn amcanion llesiant, eu datblygu er mwyn cefnogi ein cymunedau i ffynnu. Mae pobl Blaenau Gwent wrth galon popeth a wnawn a'r Cynllun Corfforaethol yw ein hymrwymiad i gymunedau Blaenau Gwent i ddarparu gwasanaethau modern o ansawdd uchel sy'n cefnogi twf economaidd a llesiant.

Fel cyngor, byddwn yn sefydliad sy'n edrych tuag allan ac a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau, y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, a chymunedau i fod yn sefydliad sy'n fwy masnachol ei feddwl ac sy'n canolbwyntio mwy ar fusnes.

| Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol | Canlyniad |
|---|---|
| **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn** | Cynnydd yng ngwydnwch y gymuned, darparu cyfleoedd addysg a sgiliau o ansawdd uchel i greu economi ffyniannus o enedigaeth ymlaen, lleihau dibyniaeth a chynyddu annibyniaeth |
| **Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig** | Mae Cyngor Blaenau Gwent yn lleihau ei allyriadau carbon yn sylweddol, yn darparu amgylchedd sy'n cefnogi twf a llesiant, ac yn cysylltu cymunedau |
| **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn** | Mae Cyngor Blaenau Gwent yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu angen lleol a gwella ansawdd bywyd a lles yn y gymuned |
| **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn** | Cynnydd yng ngwydnwch cymunedau, lle mae croeso i bawb ac mae pawb yn ddiogel, ac sy'n lleihau dibyniaeth ac yn cynyddu annibyniaeth |

Trwy ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, gallwn ddechrau trawsnewid Blaenau Gwent i fod yn ardal fwy llewyrchus a chroesawgar sy'n dathlu ei threftadaeth ac sy'n chwarae ei rhan ar y llwyfan rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hefyd yn rhan allweddol o adeiladu cyngor mwy hyderus a galluog. Mae'n ymwneud â chyflawni canlyniadau go iawn i bobl Blaenau Gwent ar sail cynlluniau cadarn a chynaliadwy, gan sicrhau y gellir dwyn y cyngor i gyfrif am yr hyn yr addawodd ei gyflawni.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Prif nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol y mae'n ddyletswydd arnom i gyfrannu atynt. Bwriad y Ddeddf yw gwneud i'r cyngor feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau, a bod â dull gweithredu mwy cydlynus.



*Blaenau Gwent – lle sy'n deg ac agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer*